Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 12.07.2022

- Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

- This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

# COVID-19: Y Prif Swyddog Meddygol yn atgoffa pobl o'r cyngor i atal lledaeniad coronafeirws

Mae achosion coronafeirws yn cynyddu unwaith eto yng Nghymru, gyda ffigurau diweddaraf y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn amcangyfrif bod gan un person ym mhob 30 COVID-19. Mae Prif Swyddog Meddygol Cymru yn atgoffa pobl i ddilyn camau syml i amddiffyn eu hunain rhag y risg o ddal COVID-19, sy'n cynnwys:

- cael brechiad

- gwisgo masgiau wyneb mewn mannau caeedig gorlawn

- unrhyw un gyda symptomau i gymryd prawf llif unffordd (am ddim tan 31 Gorffennaf 2022) ac i aros gartref a chyfyngu ar gysylltiad ag eraill. Mae gwybodaeth am sut i archebu pecyn LFT ar gael yma: https://llyw.cymru/canllawiau-hunanynysu#section-38154

Gall busnesau helpu drwy sicrhau bod eu hadeiladau wedi'u hawyru'n dda a sicrhau bod hylendid dwylo da yn cael ei gynnal. Gellir gweld y datganiad ar:

https://llyw.cymru/y-prif-swyddog-meddygol-yn-atgoffa-pobl-or-cyngor-i-atal-lledaeniad-coronafeirws

## ARIANNU: Grant Rhwystrau rhag Dechrau Busnes ar gyfer pobl 25 oed a Hŷn

Mae grant hyd at £2,000 ar gael i helpu unigolion sy'n economaidd anweithgar ac unigolion di-waith sydd dros 25 oed i ddechrau busnes yng Nghymru, a bydd yn targedu unigolion sy'n wynebu rhwystrau rhag dechrau busnes a'r farchnad gyflogaeth yn benodol. Mae mwy o wybodaeth am y Grant Rhwystrau rhag Dechrau Busnes ar gyfer pobl 25 oed a Hŷn ar gael ar:

https://businesswales.gov.wales/cy/grant-rhwystrau-rhag-dechrau-busnes-ar-gyfer-pobl-25-oed-hyn

## ARIANNU: Cronfa Refeniw Cerdd Cymru Greadigol ar agor

Nod y Gronfa Refeniw Cerdd (MRF) yw helpu i dyfu a datblygu'r diwydiant cerddoriaeth yng Nghymru drwy gefnogi busnesau a labeli rheoli cerddoriaeth i nodi ymgyrchoedd rhyddhau cerddoriaeth a fyddai'n elwa ar hwb ariannol o hyd at £10,000. Gellir cael ffurflen gais drwy anfon cais at:

CymorthAriannuCymruGreadigol@llyw.cymru

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cynnig yw 12:00pm, 29 Gorffennaf 2022. Mae gwybodaeth pellach a chanllawiau ar gael ar:

https://www.creative.wales/funding-and-support/new-financial-support-wales-music-industry

# BREXIT: Gofynion diogelwch ar fewnforion ac allforion

Mae gwybodaeth am y gofynion diogelwch newydd sy'n berthnasol i nwyddau sy'n dod i mewn ac allan o Brydain Fawr i'w gweld ar:

https://www.gov.uk/guidance/safety-and-security-requirements-on-imports-and-exports

# ADNODDAU: LLwybr Arfordir Cymru

Yn dilyn y digwyddiad "Manteisio ar gyfleoedd busnes ar Lwybr Arfordir Cymru yng Ngwynedd yn ystod y dengmlwyddiant" a gynhaliwyd yn Nant Gwrtheyrn ar 21 Mehefin 2022, oedd wedi'i anelu at y sector lletygarwch a thwristiaeth ar y llwybr, neu yn yr ardal gyfagos, yng Ngwynedd, dyma rai dolenni a rannwyd yn y digwyddiad:

- Nwyddau swyddogol – Siop Llwybr Arfordir Cymru https://www.walescoastpathshop.co.uk/

- Pecyn Cymorth Busnes – Llwybr Arfordir Cymru https://www.walescoastpath.gov.uk/working-with-us/business-toolkit/?lang=cy

- Llyfrgell delweddau a brandio'r dengmlwyddiant https://assets.wales.com/assets?tags=Wales%20Coast%20Path

- Bws Arfordir Llŷn https://www.bwsarfordirllyn.co.uk/

## LLES: Gweminar Iechyd a Lles Dynion 19 Gorffennaf 2022 – RCS

Bydd y weminar yma gan RCS, ar 19 Gorffennaf 2022 (10:00am-12:00pm), yn codi ymwybyddiaeth o faterion iechyd a lles dynion, ac yn helpu i fynd i'r afael â'r stigma sy'n gysylltiedig â hyn. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://bit.ly/3AJfx0j

Mae RCS yn darparu cymorth, hyfforddiant a therapïau i helpu pobl a busnesau ledled Cymru i wella eu llesiant ar gyfer gwaith. Mae gwybodaeth cyffredinol am RCS ar gael ar:

https://rcs-wales.co.uk/cy/

## RHEOLIADAU: Cynllun i gyflwyno cynllun trwyddedu statudol ar gyfer holl lety gwyliau

Fel rhan o becyn ehangach o fesurau, mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau bwriad i gyflwyno cynllun trwyddedu statudol ar gyfer pob llety ymwelydd, gan gynnwys llety gwyliau tymor byr. I ddarllen y datganiad yn llawn, ewch i:

https://llyw.cymru/pecyn-newydd-o-fesurau-i-roi-sylw-i-niferoedd-uchel-o-ail-gartrefi

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru